Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Adolygiad Gwella Ansawdd

## Prifysgol Bangor

### Adroddiad yr Adolygiad

Rhagfyr 2024

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Cynnwys


**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd ... 1**

Yr adolygiad hwn ... 1

**Yr adroddiad hwn ... 1**

**1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad ... 2**

Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol ... 2

Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau ... 2

Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ... 2

Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad ... 3

Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr Hunan-ddadansoddiad ... 3

Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol ... 3

**2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad ... 4**

Y canmoliaethau ... 4

Yr argymhellion ... 4

Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus ... 4

**3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant ... 5**

Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr ... 6

Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol ... 7

Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol ... 8

**4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr ... 10**

Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ... 10

Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr ... 10

Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr ... 11

Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu ... 11

Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu ... 11

Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr .................. 11
Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt.. .......... 12
Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu .......... 12
Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .......... 12
**5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd.......... 13**
Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth .......... 13
Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol .......... 13
Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol .......... 14
Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi .......... 15
Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd .......... 15
**6. Darpariaeth gydweithredol .......... 17**
Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid .......... 17
Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau .......... 17
Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol .......... 17
Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .......... 18

# Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad yr Adolygiad GA a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Bangor. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 3 a 5 Rhagfyr 2024. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bedwar adolygwr:

- Alison Blackburn
- Yr Athro Alan Howard
- Dr Laura Mason
- Dr Bradley Woolridge (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr. Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (yr Hunan-ddadansoddiad), gwybodaeth gyd-destunol am natur ei ddarpariaeth a phoblogaeth ei fyfyrwyr, ac ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yn yr adolygiad hwn, mae tîm yr Adolygiad GA yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r beirniadaethau gael eu mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA.

Hefyd, mae'r Adolygiad GA yn rhoi datganiad am y dull strategol y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr.

# Yr adroddiad hwn

Gallwch weld y beirniadaethau a roddwyd yn yr adolygiad hwn ar dudalen 4, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus ac argymhellion a nodwyd gan y tîm adolygu. Yn dilyn hyn mae canfyddiadau manwl yr adolygiad.

Mae'r adroddiadau hyn yn darparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws y darparwyr yng Nghymru.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad GA: https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: https://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

# 1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Bangor ('y Brifysgol') yn 1884. Mae ei Strategaeth 2030 yn rhoi trosolwg o'i chyfeiriad yn y dyfodol, ac mae wedi ei thanategu gan y tair colofn strategol a ganlyn: 'Rhagoriaeth Ymchwil', 'Addysg Drawsnewidiol' a 'Y Gymraeg a Diwylliant Cymru'.

2 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol, tra bo'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weinyddiaeth a rheolaeth. Mae 11 o ysgolion mewn tri choleg. Mae'r Brifysgol yn cyflogi oddeutu 2,200 o staff, mae 47% ohonynt mewn rolau academaidd ac ymchwil, 14% mewn rolau proffesiynol a 39% mewn rolau gweinyddol a thechnegol.

## Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

3 Yn 2023-24, roedd 13,738 o fyfyrwyr cofrestredig, sef 7,855 o fyfyrwyr israddedig, 5,046 o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ac 837 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Yn y cyfnod rhwng 2018-19 a 2023-24, cynyddodd nifer y myfyrwyr o 18%, yn bennaf ymysg myfyrwyr rhyngwladol oedd yn astudio ar lefel ôl-raddedig a addysgir.

4 Ar hyn o bryd, mae oddeutu 250 o fyfyrwyr yn astudio ar gampws Wrecsam. Mae gan y Brifysgol hefyd 1,500 o fyfyrwyr addysg drawswladol, y mae 1,345 ohonynt yn astudio yn Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr [Management Development Institute of Singapore] (MDIS) yn Singapôr, ond ni fydd y Brifysgol yn adnewyddu'r bartneriaeth hon.

5 Mae cyflwyno cyrsiau newydd megis mewn Meddygaeth a'r cynnydd mewn cyrsiau sylfaen/prentisiaethau wedi gwrthbwyso'r gostyngiad diweddar yn y nifer o fyfyrwyr mewn meysydd eraill. Mae gwaith i wella cadwraeth wedi cael effaith bositif hefyd. Mae'r nifer o fyfyrwyr rhan amser wedi cynyddu o 16% dros y pum mlynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd darpariaeth ym maes nyrsio a rhaglenni proffesiynol seiliedig ar waith.

## Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

6 Mae'r deuddeg is-strategaeth sy'n tanategu ei Strategaeth 2030 yn dangos bod y Brifysgol yn alinio'n agos â blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae Is-strategaeth y Gymraeg yn adlewyrchu ymrwymiad cryf y Brifysgol i'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae mewn sefyllfa dda i gefnogi targed strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

7 Mae ei Chynllun Mynediad a Ffioedd 2023-25 a'i His-strategaeth Ehangu Mynediad yn ymdrin ag ehangu cyfranogaeth, ac mae'r Brifysgol yn buddsoddi 17% o'i hincwm cyfan a ddaw o ffioedd myfyrwyr israddedig llawn amser, mewn cefnogi cyfle cyfartal.

8 Mae gwaith ymgysylltu dinesig y Brifysgol yn atgyfnerthu profiad dysgu'r myfyrwyr, ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn ei His-strategaeth Ymgysylltiad Dinesig, a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd i wirfoddoli sydd ar gael drwy Undeb y Myfyrwyr.

## Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

9 Cafodd y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad ei arwain gan y Grŵp Adolygiad Gwella Ansawdd (Grŵp Adolygiad GA), dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr). Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol am agweddau o'r adolygiad, a phenodwyd ymgynghorydd i helpu gydag elfennau penodol o'r gwaith paratoi.

10 Penderfynodd Undeb y Myfyrwyr gynnwys ei gyflwyniad yn yr Hunan-ddadansoddiad er mwyn gwneud cyflwyniad ar y cyd â'r Brifysgol. Lluniwyd yr Hunan-ddadansoddiad yn gynharach na'r bwriad er mwyn dwyn i ystyriaeth y newid yn swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr ran o'r ffordd drwy'r gwaith paratoi, a sicrhawyd cysondeb gan yr Is-lywydd Addysg a gafodd eu penodi wedyn yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Defnyddiwyd mecanweithiau adborth oedd ar waith yn barod i gael adborth gan amrediad eang o fyfyrwyr.

11 Rhoddwyd diweddariadau am y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Addysgu a Dysgu, yng nghyfarfodydd Bwrdd Gweithredol y Gwasanaethau Proffesiynol ac yng nghyfarfodydd Cyngor y Brifysgol. Cymeradwywyd fersiynau drafft o'r Hunan-ddadansoddiad gan y Bwrdd Gweithredol.

## Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr Hunan-ddadansoddiad

12 Cymeradwywyd pedair blaenoriaeth gan y Grŵp Adolygiad GA wedi iddo ddadansoddi gwybodaeth ar draws 10 maes posibl. Dyma'r rhesymau pam mae'r Brifysgol wedi dewis cynnwys pob un o'r blaenoriaethau a ganlyn, ochr yn ochr â'i cham yn y broses ddatblygu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu hadolygu'n fanwl yn Adran 3 yr adroddiad.

- Blaenoriaeth 1: Gwella Profiad y Myfyrwyr
  Maes i ganolbwyntio arno sydd wrthi'n cael ei werthuso.
- Blaenoriaeth 2: Gwella Cadwraeth
  Buddsoddiad mewn menter newid sydd wrthi'n cael ei gweithredu.
- Blaenoriaeth 3: Gwella Graddedigion Bangor
  Maes o her sydd wrthi'n cael ei gynllunio neu sydd ar gamau cynnar ei weithrediad.
- Blaenoriaeth 4: Gwella Datblygiad Staff Academaidd
  Esiampl o arfer canmoladwy sydd wrthi'n cael ei weithredu/werthuso.

## Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

13 Yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) a gafwyd gan QAA yn 2018, derbyniodd y Brifysgol dair canmoliaeth a thri chadarnhad, ac ni roddwyd unrhyw argymhellion. Mae'r Grŵp Adolygiad GA wedi monitro gweithrediad hyd gwblhad y cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad, gan adeiladu ar y canmoliaethau a'r cadarnhadau. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys diweddaru'r gwaith 'Learner Analytics' ac ailddatblygu'r Fframwaith Asesu, sef y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau erbyn hyn. Trwy'r Ysgol Ddoethurol, gwnaethpwyd ystod o welliannau hefyd mewn perthynas â phrofiad dysgu myfyrwyr ymchwil.

## 2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Bangor yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- Mae Prifysgol Bangor yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad GA nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y berthynas gref rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr a'r ffaith ei bod yn rhoi sylwadau ac adborth y myfyrwyr yn flaenllaw mewn mentrau/prosiectau i wella profiad y myfyrwyr.

- Y graddau y mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi eu hymwreiddio'n ddwfn yn niwylliant y Brifysgol, a hynny'n amlwg er budd y staff a'r myfyrwyr i gyd mewn perthynas â chyfleoedd dysgu ac ymdeimlad o berthyn.

- Yr amrediad eang ac ymatebol o gymorth academaidd a bugeiliol sydd ar gael i'r myfyrwyr i helpu i ateb eu hanghenion drwy gydol eu hamser yn y Brifysgol.

- Y gwerth sylweddol a roddir i ddatblygiad staff, ac i ba raddau y mae hyn wedi ei ymwreiddio'n llawn ar draws y Brifysgol gyfan, ac mae hyn o fudd sylweddol i'r staff a'r myfyrwyr yn eu dysgu.

- Gweithrediad y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau i sicrhau bod arferion asesu'n deg ac yn gyson, o fewn a rhwng meysydd astudio.

- Y ffordd systematig o gyfuno a defnyddio data i hysbysu prosesau sicrhau ansawdd, i hwyluso cymorth wedi ei deilwra i fyfyrwyr ac i danategu gwelliannau penodol.

### Yr argymhellion

Ni wnaeth tîm yr Adolygiad GA unrhyw argymhellion.

### Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus

Nododd tîm yr Adolygiad GA un maes sydd o dan ddatblygiad parhaus, sydd wedi ei grynhoi isod.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau dull y Brifysgol o reoli darpariaeth gydweithredol.

# 3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant

14 Archwiliodd y tîm adolygu ddulliau strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant yng nghyd-destun ei Strategaeth 2030 drosfwaol a'i deuddeg is-strategaeth. Mae'r Is-strategaeth Addysgu a Dysgu a'r Is-strategaeth Profiad Myfyrwyr yn pwysleisio dull pwrpasol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

15 Nododd y Brifysgol bedair blaenoriaeth benodol o ran gwelliant ar gyfer yr Adolygiad GA hwn, fel a ganlyn:

- Gwella Profiad y Myfyrwyr
- Gwella Cadwraeth
- Gwella Graddedigion Bangor
- Gwella Datblygiad Staff Academaidd.

16 Dewiswyd blaenoriaethau gwelliant drwy broses drwyadl, gan ystyried cynlluniau strategol, ffactorau llwyddiant allweddol, a ffynonellau data sefydliadol megis yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â meysydd ffocws allweddol i'r Brifysgol, yn cynnwys cadwraeth a boddhad y myfyrwyr, canlyniadau graddedigion, a datblygiad staff, gan alinio â'r cyfeiriad sefydliadol a'r disgwyliadau ar gyfer y sector addysg uwch.

17 Gwelwyd tystiolaeth o waith gwella'r Brifysgol mewn astudiaethau achos, cyflwyniadau, a dogfennau ategol a ddarparwyd, yn cynnwys tystiolaeth i ddangos mentrau seiliedig ar ddata megis y gweithgareddau i sicrhau gwelliant yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), y Grŵp Cyflawni Cadwraeth, a gweithrediad y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau.

18 Yn ystod yr ymweliad adolygu, archwiliodd y tîm adolygu'r blaenoriaethau hyn yn fanwl drwy gynnal cyfarfodydd â'r staff uwch, y gwasanaethau proffesiynol, y staff academaidd, a'r myfyrwyr. Rhoddodd y staff a'r myfyrwyr gyflwyniad ar y cyd i'r tîm i ddarparu rhagor o wybodaeth iddo am sail resymegol a phrosesau cynllunio a gwerthuso mentrau gwella, yn ogystal â rôl y myfyrwyr fel partneriaid wrth siapio a hysbysu'r blaenoriaethau hyn.

19 Bu'r tîm adolygu'n ystyried y camau pwrpasol y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i wella profiad dysgu'r myfyrwyr, drwy archwilio'r defnydd a wneir o dystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso profiad dysgu'r myfyrwyr mewn perthynas â'r pedair blaenoriaeth. Yn rhan o'r adroddiad hwn, mae'r tîm yn rhoi sylwadau ar ei ganfyddiadau yn y tri maes hyn, yn yr adrannau isod.

20 O ganlyniad cyffredinol i'r dull adolygu i sicrhau gwelliant a gwaith y tîm o ystyried y blaenoriaethau gwelliant, rhoddir datganiad am ddull strategol y darparwr o wella profiad academaidd ei fyfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n rhoi'r datganiad a ganlyn am ddull strategol y Brifysgol o wella profiad academaidd ei myfyrwyr:

21 *Mae dull strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant yn rhan annatod o'i Strategaeth 2030, ac mae 'Addysg Drawsnewidiol' yn un o'i thair colofn. Cefnogir hyn gan ffactorau llwyddiant allweddol sy'n canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu, cadwraeth y myfyrwyr, a chanlyniadau'r graddedigion. Mae'r is-strategaethau addysgu a dysgu a phrofiad myfyrwyr wedi eu llunio ac yn cael eu gwerthuso ar sail data. Mae gwelliant wedi ei gwreiddio'n fwriadol yn yr arferion sefydliadol craidd, ac atgyfnerthir hyn drwy strwythurau perchnogaeth, lledaeniad a gwobrwyo. Un o brif gryfderau'r sefydliad yw'r ffordd systematig y mae'n cyfuno ac yn defnyddio data, yn cynnwys metrigau am ymgysylltiad a pherfformiad myfyrwyr, i hysbysu camau gweithredu penodol.*

22 *Creffir ar weithgareddau gwella'r Brifysgol drwy adroddiadau sicrhau a gwella ansawdd blynyddol, ochr yn ochr â'r Adroddiad Perfformiad Integredig. Mae'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yn cadw goruchwyliaeth ac yn sicrhau y cymerir camau gweithredu mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr mewn ffordd gyson, yn rhan o ddull ehangach o fonitro ansawdd a chefnogi gweithgareddau gwella.*

23 *Mae'r Brifysgol yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog sy'n gwerthfawrogi'n fawr ei dreftadaeth Gymreig a'r Gymraeg, ac mae hyn yn ei hangori i'w ranbarth a'i gymuned. Un o nodweddion arbennig dull y Brifysgol yw ei phartneriaeth gref gydag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr yn cyd-greu strategaethau, yn rhoi adborth drwy eu cynrychiolwyr, ac maen nhw'n rhan annatod o'r llywodraethu. Mae'r gwasanaethau proffesiynol, ochr yn ochr â'r Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT), yn cefnogi mentrau arloesi a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). I grynhoi, mae'r dulliau hyn yn dangos fframwaith cadarn a chynhwysol sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus.*

## Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr

24 Mae'r Brifysgol yn ystyried bod y flaenoriaeth gwelliant 'Gwella Graddedigion Bangor' yn symud o gam cynllunio i gam gweithredu'r cylch gwella, fel y mae wedi ei amlinellu yn yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol o dan ail flaenoriaeth yr Is-strategaeth Addysgu a Dysgu: "galluogi i fyfyrwyr y Brifysgol gyfrannu'n llwyddiannus at y farchnad i raddedigion yn ei rhanbarth a thrwy'r byd i gyd, a chystadlu'n llwyddiannus o fewn y farchnad honno". Cadarnhaodd y tîm adolygu bod y diffiniad o 'Raddedigion Bangor' sydd wedi ei roi gan y Brifysgol, sef: "rhai sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i weithio a byw mewn ffordd sy'n diogelu lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol" yn cyfateb â Strategaeth 2030 y Brifysgol.

25 Yn rhan o'r broses gynllunio a'r camau gweithredu cynnar, sefydlwyd y Grŵp Cyflawni Cyflogadwyedd a Gweithgor Dysgu Seiliedig ar Waith yn ystod 2024. Mae'r Grŵp yn goruchwylio'r broses o ddatblygu gweithgareddau gyrfaol ar lefel strategol ar draws y Brifysgol gyfan, ac mae'n rhannu arferion gorau. Ar y llaw arall, mae'r Gweithgor yn ymwneud yn benodol ag adolygu a gwella gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith, gan sicrhau bod pob gweithgaredd yn cyfateb ag anghenion amrywiol y myfyrwyr ac amcanion strategol y Brifysgol. Daeth y tîm i wybod am waith y Gweithgor Dysgu Seiliedig ar Waith i adolygu'r trefniadau ar gyfer lleoliadau gwaith, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr a disgrifiadau rôl ar gyfer arweinwyr lleoliadau gwaith, ac am y bwriad i'r Cod Ymarfer ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith nodi'r lefel isaf o gymorth, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws colegau. Daeth y tîm adolygu i wybod hefyd am y cyfleoedd lleoliad gwaith cyfrwng Cymraeg a ddarperir er mwyn ateb anghenion y rhanbarth a chryfhau opsiynau gyrfaol i'r myfyrwyr.

26 Cadarnhaodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw fod y cyfleoedd lleoliad gwaith sydd ar gael iddyn nhw'n hynod o werthfawr i'w paratoi nhw ar gyfer byd gwaith, ac ategir y rheiny gan y cyfleoedd gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr. Dywedodd y myfyrwyr hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r 'Wythnos Fy Ngyrfa Raddedig' a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Hydref 2023 mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys cyfres o weithdai, darlithoedd a sesiynau ymarferol dros wythnos oedd wedi eu cyfateb bob dydd ag un o'r pum priodoledd graddedigion. Roedd yn cynnwys Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd a ddenodd fwy na 1,800 o fyfyrwyr. Roedd yn hwyluso rhyngweithio rhwng y myfyrwyr a chynrychiolwyr 89 o gyflogwyr a chyrff proffesiynol. Yn ei gwaith o gynllunio ar gyfer yr Wythnos Gyrfaoedd nesaf, mae'r Brifysgol wedi defnyddio adborth gan y myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Er enghraifft, mae'n ceisio cryfhau'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr niwrowahanol drwy sicrhau 'amser tawel' i'w galluogi i gymryd rhan.

27 Mae'n ymddangos bod cysylltiadau'r Brifysgol â chyn-fyfyrwyr ac amrywiaeth eang o gyflogwyr yn gryf, ac mae'r myfyrwyr yn sôn am gysylltiadau cadarnhaol â nhw drwy gyfrwng y Ffair Gyrfaoedd ac mewn darlithoedd gwadd a gweithdai. Yn ogystal, daeth y tîm adolygu i wybod am gamau sy'n cael eu cymryd i wreiddio priodoleddau graddedigion yn y cwricwlwm, ac am waith gyda chyflogwyr i ganfod pa sgiliau y mae'r myfyrwyr eu hangen, yn ogystal ag arolwg parodrwydd gyrfaol i'r myfyrwyr eu hunain, sy'n bwydo i mewn i ddangosfwrdd camau gweithredu graddedigion ar lefel ysgol.

28 Y rheswm am ddewis Graddedigion Bangor fel blaenoriaeth gwelliant yw dangos camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad gwael y Brifysgol mewn data am ganlyniadau graddedigion a sgorau cyflogadwyedd. Mewn trafodaethau, tynnodd y Brifysgol sylw'r tîm adolygu at heriau sy'n ymwneud â bwlch o ran amser wrth fesur llwyddiant yn y maes hwn. I fynd i'r afael â hyn, mae'n defnyddio asesiadau sy'n cysylltu modiwlau â sgiliau, a'i harolwg parodrwydd gyrfaol, fel mesuriadau dangosol.

29 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y mentrau gwella 'Graddedigion Bangor' cynnar yn cael eu llywio gan anghenion y myfyrwyr a'r cyflogwyr, yn rhoi cyfle i'r ddau grŵp gymryd rhan weithredol ynddynt, ac yn mynd i'r afael â'r heriau a welwyd mewn ffordd ragweithiol a phwrpasol. Cafodd y mentrau hyn eu croesawu. Er nad ydynt wedi eu gweithredu'n llawn eto, ystyrir y byddant yn cael rhagor o effaith gadarnhaol wrth i'r gwaith symud yn ei flaen ac i'r mentrau ddod yn gwbl weithredol.

## Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol

30 Yn yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2018, cymeradwywyd y Brifysgol am y ffordd systematig y mae'n casglu ac yn defnyddio data am berfformiad a chyfranogaeth y myfyrwyr i hysbysu a gwella cymorth i fyfyrwyr a hybu eu cynnydd academaidd. Cydnabu'r tîm adolygu fod hwn yn faes sydd wedi parhau i ddatblygu, ac mae un o'r blaenoriaethau gwelliant yn canolbwyntio ar 'Effaith y system Learner Analytics ar wella cadwraeth'. Ar ôl diweddaru'r system 'Learner Analytics' yng ngwanwyn 2022, mae gwaith ar droed yn y maes hwn y mae'r Brifysgol yn ei ddisgrifio fel menter newid sydd wrthi'n cael ei gweithredu.

31 Ar lefel strategol, mae'r flaenoriaeth gwelliant 'Gwella Cadwraeth' wedi ei halinio'n agos â Strategaeth 2030 sy'n cynnwys targed o wella cadwraeth o 1.5% y flwyddyn. Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod y Brifysgol yn monitro cadwraeth yn effeithiol fel un o'i phrif fesuriad canlyniadau, a phan ganfu bod angen ymyrryd, cafwyd adroddiadau am gadwraeth myfyrwyr a arweiniodd at archwiliad dwfn gan y Grŵp Cyflawni Cadwraeth. Clywodd y tîm gan y staff a'r myfyrwyr am y ffordd y mae myfyrwyr rhyngwladol yn derbyn croeso i'r Brifysgol a chymorth i ymgynefino â hi. Rhoddwyd y broses hon ar waith yn llwyddiannus yn dilyn archwiliad dwfn ar sail data, ac roedd hi'n amlwg bod hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn.

32 Yn ogystal, clywodd y tîm adolygu gan y staff a'r myfyrwyr sut mae'r system 'Learner Analytics' yn cael ei defnyddio i gefnogi'r myfyrwyr i ddeall lefelau eu cyfranogaeth eu hunain, yn ogystal â monitro cyfranogaeth gyffredinol. Pwysleisiwyd y ffaith bod y Brifysgol yn defnyddio'r system hon fel cyfrwng allweddol i hwyluso trafodaethau wyneb yn wyneb, yn hytrach na disodli trafodaethau o'r fath. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn cael budd amlwg o gael data mor eglur, a rhoesant esiamplau i'r tîm o'r defnydd a wnânt o'r system 'Learner Analytics' i'w meincnodi eu hunain yn erbyn eu cymheiriaid.

33 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y flaenoriaeth 'Gwella Cadwraeth' yn cael ei gweithredu'n effeithiol, ac mae tystiolaeth i ddangos bod myfyrwyr yn cael budd uniongyrchol o hynny. Mae'r system 'Learner Analytics' yn galluogi i'r staff cymorth a lles, yn ogystal â'r staff academaidd a'r myfyrwyr, ddeall materion cyfranogaeth, a chanfod a chywiro unrhyw broblemau yn hawdd yn y maes hwn gan effeithio'n gadarnhaol ar gadwraeth.

34 Mae’r Brifysgol yn ystyried bod y flaenoriaeth gwelliant ‘Gwella Datblygiad Staff’ yn faes o arfer canmoladwy, a bod y flaenoriaeth hon yn symud o’r cam gweithredu i’r cam gwerthuso. Cadarnhaodd y tîm adolygu fod gan y Brifysgol strwythurau clir ar gyfer canfod anghenion hyfforddi, a bod yr Is-strategaeth Pobl a Lles wedi ei halinio â’r thema drawsnewid ‘Ein Pobl’ yn Strategaeth 2030. Mae hyn yn dangos y pwyslais a roddir ar ddatblygiad staff ar draws y sefydliad cyfan. Mae gwobrau megis Gwobr Arian Athena SWAN a’r gwaith ar y Siarter Cydraddoldeb Hiliol yn dystiolaeth bellach o’r ymrwymiad i ddatblygu staff.

35 Clywodd y tîm adolygu am newidiadau yn y strwythurau trefniadaethol sy’n ymwneud â datblygiad staff, gan ddod â CELT a’r Uned Gwella Ansawdd at ei gilydd er mwyn hwyluso gwell cydweithrediad. Mewn cyfarfodydd â’r staff, roedd hi’n amlwg bod prosesau effeithiol ar waith i ganfod anghenion hyfforddi’r staff, gan gynnwys Adolygiad Datblygiad Proffesiynol ffurfiol a gwblhawyd gan 91% o’r staff yn 2023. Hefyd, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr ac adborth am fodiwlau’n helpu i ganfod themâu ar gyfer sesiynau hyfforddi. Mae’r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd yn amlygu’r effaith unigol gadarnhaol a gaiff y gefnogaeth datblygiad sydd ar gael i’r staff.

36 Mae’r dogfennau a ddarparwyd yn dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd DPP sydd ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg a’r gefnogaeth i helpu’r staff i gael cydnabyddiaeth, ac mae gan fwy na 40 o’r staff statws Cymrawd Advance HE.

37 Daeth y tîm adolygu i’r casgliad bod y mentrau ‘Gwella Datblygiad Staff’ a ddangoswyd yn rhai helaeth, ac er bod y rhai i’r staff academaidd wedi eu rhoi ar waith yn llawn ac yn cael eu gwerthuso’n effeithiol, mae’r mentrau i staff y gwasanaethau proffesiynol yn tueddu bod ar y cam gweithredu.

## Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau’r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a’r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol

38 Mae’r Brifysgol yn ystyried bod y flaenoriaeth gwelliant ‘Gwella Profiad y Myfyrwyr’ ar y cam gwerthuso, fel y mae’r cam hwn wedi ei ddisgrifio yn yr Hunan-ddadansoddiad. Ar ôl cael ei chanmol am ei phartneriaeth â’i myfyrwyr yn yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2018, mae’r Brifysgol wedi parhau i wella ei chymorth a’i darpariaeth, gan weithio’n agos â’r corff myfyrwyr i wella’r profiad dysgu. Mae profiad y myfyrwyr yn ganolbwynt i golofn ‘Addysg Drawsnewidiol’ Strategaeth 2030, ac mae’r Brifysgol yn ymrwymo i ddarparu profiad wedi’i bersonoli i’w myfyrwyr.

39 Mae’r Brifysgol wedi alinio’r flaenoriaeth hon ag un o’r ffactorau llwyddiant allweddol sydd wedi eu hamlinellu yn Strategaeth 2030, sef sgôr o 85% o leiaf am ansawdd yr addysgu yn yr ACF. Ar hyn o bryd, mae’r flaenoriaeth ar y cam gwerthuso, ar sail y cynllun cylchol manwl a’r dull o weithredu a gwerthuso a ddefnyddiwyd yn y pedair blynedd diwethaf. Roedd pryderon am y gostyngiad yn sgorau ACF 2023, ond mae’n ymddangos bod gweithgareddau gwella dilynol wedi cyfrannu at gynyddiadau cadarnhaol yn ACF 2024, gan gynnwys cynnydd o 10% yn y sgôr boddhad cyffredinol a chynnydd o 5% yn y sgôr safon addysgu, sy’n uwch na’r ffactor llwyddiant allweddol (sef 86%). Datblygwyd Is-strategaeth ‘Profiad y Myfyrwyr’ newydd, sy’n eistedd ochr yn ochr â’r Is-strategaeth Addysgu a Dysgu, trwy ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd. Canlyniad hyn yw strategaeth sydd â phum blaenoriaeth: cyfleoedd i fyfyrwyr a materion yn ymwneud â lles, cynhwysiant, yr amgylchedd a chyfathrebu. Crëwyd Grŵp Cyflawni Profiad Myfyrwyr i helpu i gefnogi’r broses o fonitro profiad y myfyrwyr a’r strategaeth berthnasol yn ffurfiol. Mae’r tîm adolygu’n cadarnhau y dylai’r datblygiadau hyn helpu’r Brifysgol i fonitro a gwerthuso cynnydd yn llwyddiannus.

40 O’r hyn a ddywedwyd mewn cyfarfodydd amrywiol â chynrychiolwyr y myfyrwyr a’r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, roedd hi’n amlwg bod y myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gyd-grëwyr wrth ddatblygu a gwella eu profiadau. Daeth y tîm adolygu i wybod am yr amrywiaeth o fforymau a gweithgareddau sydd ar gael i’r myfyrwyr gyfranogi a gweithio mewn partneriaeth â’r Brifysgol. Mae’r rhain yn cynnwys Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, Cynghorau Cynrychiolwyr Cwrs, y fenter ‘Dydd Mawrth Dweud’, sesiynau ‘Coffi gyda Chynrychiolwyr’, a Fforwm y Myfyrwyr. O ganlyniad i rai o’r mentrau hyn, datblygwyd adroddiadau barn myfyrwyr am themâu allweddol i godi ymwybyddiaeth o broblemau. Mae’r rhain yn adnoddau defnyddiol i’r Brifysgol wrth ymateb i heriau parhaus. Mae’r tîm adolygu’n barnu bod yr amrywiol fforymau’n rhoi cyfle cyfannol i’r myfyrwyr gyfrannu at eu profiad dysgu, a’u bod nhw’n dangos cyfres gynhwysfawr o fecanweithiau i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn cael ei fonitro a’i wella’n barhaus.

41 Daeth y tîm adolygu i’r casgliad bod y flaenoriaeth ‘Gwella Profiad y Myfyrwyr’ wedi ei datblygu’n dda ac wedi ei chryfhau drwy waith a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae mesurau gwrthrychol ar waith sy’n ymrwymo’r Brifysgol i barhau i wella profiad y myfyrwyr, ac mae dulliau wedi eu sefydlu’n dda i’w galluogi i weithio mewn partneriaeth â’i myfyrwyr i addasu i anghenion amrywiol a newidiol y corff myfyrwyr.

## 4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr

42 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr. Bu'r tîm yn ystyried ystod o ddogfennau, yn cynnwys yr Is-strategaeth Profiad Myfyrwyr, yr Adroddiad Barn Myfyrwyr: Cyfathrebiadau, yr Is-strategaeth Addysgu a Dysgu a'r astudiaethau achos am y blaenoriaethau gwelliant, yn ogystal ag adroddiadau/cofnodion pwyllgorau/grwpiau cyflawni sefydliadol allweddol sydd â chyfrifoldebau am safonau academaidd ac ansawdd, dysgu ac addysgu, a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm â'r staff a'r myfyrwyr.

### Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

43 Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â phob gofyniad rheoleiddiol perthnasol, megis ymlyniad â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth gywir.

44 Mae pwyntiau cyfeirio allanol eraill yn cynnwys Cynllun Mynediad a Ffioedd Medr (sef Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru) a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. Mae fframweithiau cymwysterau cenedlaethol, Datganiadau o Nodweddion Gradd, Datganiadau Meincnodi Pwnc, a'r gwaith mapio yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU 2018 (y Cod Ansawdd) a'r ESG, oll yn bwydo i mewn i brosesau ansawdd y Brifysgol (gwelwch Adran 5).

45 Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, ystyriwyd bod 85% o'r gwaith ymchwil a wneir yn y Brifysgol ymysg y gorau yn y byd/yn rhyngwladol ragorol. Mae hyn yn gwella profiad y myfyrwyr drwy integreiddio'r wybodaeth ddiweddaraf i mewn i'r cwricwlwm.

### Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr

46 Trwy'r dadansoddiad pen desg a'r ymweliad ar y safle, roedd hi'n amlwg bod y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth i safbwynt y myfyrwyr a'i fod yn ganolog i brofiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r Adroddiad Barn Myfyrwyr: Cyfathrebiadau'n rhoi nifer o esiamplau rhagorol, megis 'Dydd Mawrth Dweud', sy'n dangos y ffordd y cesglir adborth gan fyfyrwyr, sut y cymerir camau gweithredu mewn ymateb iddo a sut yr adroddir amdanynt. Roedd y sgorau a gafwyd yn yr Arolwg o Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (PRES) a'r Arolwg o Brofiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES), a'r cyfarfod â myfyrwyr ôl-raddedig, yn cadarnhau bod y myfyrwyr ôl-raddedig o'r farn eu bod yn derbyn clust i'w hadborth a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid yn y profiad dysgu.

47 Soniwyd yn aml fod Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yn allweddol i drafodaethau am brofiad y myfyrwyr. Dirywiodd sgorau'r ACF ar gyfer y Brifysgol yn 2023, ond mae'r gweithgareddau i sicrhau gwelliant yn yr ACF a ddatblygwyd mewn ymateb i hyn yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i wrando ar lais y myfyrwyr, ac mae'n ymddangos eu bod wedi cyfrannu at ganlyniad cadarnhaol ACF 2024 gan alinio Prifysgol Bangor â'r cyfartaledd i'r sector yng Nghymru.

48 Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y berthynas gref rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr a'r ffaith ei bod yn rhoi sylwadau ac adborth y myfyrwyr yn flaenllaw mewn mentrau/prosiectau i wella profiad y myfyrwyr.

## Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

49 Mae datblygiad yr Is-strategaeth Profiad Myfyrwyr a'r Grŵp Cyflawni Profiad Myfyrwyr yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i weithio gyda'i myfyrwyr fel partneriaid. Mae swyddogion sabothol/cynrychiolwyr cwrs Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli'r myfyrwyr ar bob lefel o'r gwaith llywio, ac mae hyn yn dangos mor bwysig yw barn ei myfyrwyr i'r Brifysgol.

50 Mewn cyfarfodydd gyda myfyrwyr israddedig, myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ac yn ystod y cyfarfod am y flaenoriaeth gwelliant 'Gwella Profiad y Myfyrwyr', roedd y myfyrwyr yn cadarnhau eu boddhad yn gyson ac yn canmol dull cydweithredol y Brifysgol a'i hymatebolrwydd i'w hadborth. Darparwyd esiamplau oedd yn dangos bod y staff yn barod i wrando ar y myfyrwyr a sicrhau effaith gadarnhaol ar eu dysgu wrth gydweithio â nhw i weithredu newidiadau. Cydnabu'r tîm adolygu bartneriaeth gref ac effeithiol rhwng y myfyrwyr a'r Brifysgol.

## Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu

51 Mae'r Is-strategaeth Addysgu a Dysgu wedi ei halinio'n glir â cholofn strategol 'Addysg Drawsnewidiol' Strategaeth 2030 ac wedi ei thanategu gan ymrwymiad i 'Raddedigion Bangor', fel y gwelwyd ym mlaenoriaeth gwelliant 3. Mae strwythurau'r pwyllgorau a'r grwpiau cyflawni'n dangos bod staff ar bob lefel yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o weithredu'r Is-strategaeth Addysgu a Dysgu'n effeithiol i wella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Rhoddodd y myfyrwyr sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael iddyn nhw, ynghyd â mentrau allweddol megis llwybrau dysgu hyblyg a'r cyfle i addasu rhaglenni i ateb dyheadau myfyrwyr unigol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y graddau y mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi eu hymwreiddio'n ddwfn yn niwylliant y Brifysgol, a hynny'n amlwg er budd y staff a'r myfyrwyr i gyd mewn perthynas â chyfleoedd dysgu ac ymdeimlad o berthyn.

## Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu

52 Mae'r Brifysgol wedi dangos bod ganddi hanes parhaus o fentrau penodol i wella'r dysgu a'r addysgu, ac mae hyn wedi ei adlewyrchu mewn cyfres o brosiectau ('archwiliad dwfn', 'sgaffald' ac 'adfer'). Mae'r effeithiau a gaiff y mentrau hyn yn cael eu gwerthuso'n effeithiol, ac mae hyn wedi ei gysylltu'n agos â dull y Brifysgol o sicrhau gwelliant sy'n seiliedig ar ddata (gwelwch Adran 5). Esiamplau da o'r dull hwn yw cyflwyniad Adroddiad Gwelliant Blynyddol a lansiad yr Adroddiad Perfformiad Integredig.

53 Yn weithredol, mae gweithdrefnau adolygu blynyddol i werthuso a gwella'r dysgu a'r addysgu'n barhaus wedi eu sefydlu'n dda, gyda dogfennaeth adolygiadau modiwlau a rhaglenni sy'n fanwl ac yn glir.

54 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol systemau effeithiol wedi eu sefydlu'n dda i werthuso mentrau gwella. Mae dangosyddion perfformiad allweddol priodol, ynghyd ag adborth gan y myfyrwyr, wedi eu hintegreiddio'n effeithiol er mwyn sicrhau dull ystyriol a chydlynol.

## Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr

55 Mae gan y Brifysgol nifer o fecanweithiau/strwythurau datblygedig i gefnogi ei myfyrwyr. Er enghraifft, mae sesiynau ymgynghori un-i-un, cymorth gan gymheiriaid, tiwtoriaid personol

a thiwtoriaid uwch, Mentoriaid Preswyl, Gwasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaethau Anabledd a Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn casglu ac yn monitro gwybodaeth yn barhaus am anghenion ei myfyrwyr (er enghraifft, drwy'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed) a'i bod yn datblygu cymorth ychwanegol. Mae'r myfyrwyr yn cydnabod ac yn croesawu'r cymorth hwn.

56 Mae'r cymorth sydd ar gael wedi ei deilwra i'r boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Yn arbennig, mae'r tîm adolygu'n tynnu sylw at y cymorth a roddir i fyfyrwyr rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r mentoriaid i fyfyrwyr rhyngwladol a'r Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor yn cynnig cymorth academaidd a bugeiliol a chymorth dysgu o safon dda.

57 Roedd hi'n amlwg bod cymorth sylweddol ar gael i'r myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** yr amrediad eang ac ymatebol o gymorth academaidd a bugeiliol sydd ar gael i'r myfyrwyr i helpu i ateb eu hanghenion drwy gydol eu hamser yn y Brifysgol.

## Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt

58 Canfu'r tîm adolygu fod gan y Brifysgol brosesau penodi eglur, ac mae'n cydnabod bod ymgysylltiad, perfformiad a lles y staff yn gyrru profiad y myfyrwyr. Disgrifiodd aelodau newydd eu penodi o'r staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fel y cawsent eu hymsefydlu'n effeithiol yn y Brifysgol a sut y cawsent ddeunyddiau cyfarwyddo a mentoriaid i roi cymorth academaidd a chefnogaeth gyffredinol cymheiriaid iddynt. Anogir y staff yn frwd i wneud hyfforddiant yn y Gymraeg, gydag amser wedi'i neilltuo yn y dyraniadau llwyth gwaith.

59 Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd DPP ar gael i'r staff drwy'r Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT), ac anogir y staff i geisio cydnabyddiaeth broffesiynol am eu cyflawniadau. Mae'r staff yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd ac fe'u hanogir i rannu profiadau gyda'u cymheiriaid yng nghynhadledd flynyddol CELT, a thrwy brosesau cymar wrth gymar sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr arferion addysgu a phrofiad y myfyrwyr. Mae CELT yn manteisio'n effeithiol ar arbenigedd academaidd mewn addysg, ac mae'n ymatebol i anghenion y staff a'r myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gwerth sylweddol a roddir i ddatblygiad staff, ac i ba raddau y mae hyn wedi ei ymwreiddio'n llawn ar draws y Brifysgol gyfan, ac mae hyn o fudd sylweddol i'r staff a'r myfyrwyr yn eu dysgu.

## Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu

60 Mae adborth o'r cynllun arsylwi gan gymheiriaid, Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr a digwyddiadau gwella'n bwydo i mewn i fentrau datblygiad proffesiynol i'r staff.

61 Mae'r gwaith o groesgyfeirio'r adborth hwn â phynciau sy'n codi o'r gwobrau dysgu dan arweiniad myfyrwyr a gweithgareddau DPP yn dystiolaeth o'r defnydd a wneir o adborth sy'n bwydo i mewn i ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses hon yn cael ei gwerthfawrogi gan y myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr, a thynnodd y staff sylw'r tîm adolygu at y ffaith bod monitro parhaus a rhannu arferion da'n bwysig ar gyfer eu datblygiad personol.

## Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

62 Gan adeiladu ar yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2018, mae'r Brifysgol wedi gallu cynnal profiad dysgu ei myfyrwyr a'i ddatblygu ymhellach. Roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu bod barn y myfyrwyr a'u hadborth yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio i yrru mentrau sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r myfyrwyr wedi eu cynrychioli ymhob fforwm perthnasol, ac mae hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i wella eu profiad dysgu.

## 5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

63 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a gwella ei safonau a'i hansawdd academaidd. Bu'r tîm yn ystyried ystod o ddogfennau, gan gynnwys yr Is-strategaeth Addysgu a Dysgu, yr adolygiad o'r Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni a Addysgir a gafwyd yn 2023-24, y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau, y cyflwyniad am 'Ddulliau strategol o sicrhau gwelliant' a sampl o adroddiadau sefydliadol am brosesau ansawdd. Mewn cyfarfodydd, clywodd y tîm gan y staff a'r myfyrwyr bod y trefniadau hyn yn effeithiol a'u bod yn cael eu datblygu ymhellach yn barhaus.

### Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth

64 Mae'r tîm adolygu'n cydnabod yr ymdrechion strategol y mae'r Brifysgol yn eu gwneud i wella ei dulliau o reoli ansawdd a safonau drwy newidiadau strwythurol a threfniadol sylweddol a wnaed ers ei Hadolygiad GA diwethaf. Mae'r Is-strategaeth Addysgu a Dysgu newydd, a gyflwynwyd rhwng 2021 a 2025, wedi chwarae rhan ganolog mewn ail siapio'r tirlun academaidd. Cyflawniadau allweddol yn cynnwys y gwaith o ostwng y portffolio israddedig o 650 i 250 o raglenni a sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru newydd.

65 Mae diwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio, megis yr adolygiad o'r Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni a Addysgir a gafwyd yn 2023-24, yn dangos dull rhagweithiol o gynnal ansawdd a safonau. Mae'r diweddariadau allweddol yn cynnwys amserlenni estynedig ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir, ehangu'r llwybrau trosglwyddo credydau, a chaniatâd i addasu'r dull achredu safonol mewn meysydd astudio penodol, er mwyn rhoi hyblygrwydd gan sicrhau cydymffurfiad â safonau proffesiynol.

66 Mae'r tîm adolygu'n tynnu sylw at ymrwymiad y Brifysgol i gynnal goruchwyliaeth drwyadl drwy wneud archwiliadau dwfn o feysydd penodol, megis datblygiad y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau. Mae'r fframwaith sydd wedi ei ddiweddaru'n adlewyrchu gwell ffocws ar degwch, cysondeb ac eglurder mewn arferion asesu.

67 Nododd y tîm adolygu y disgwylir y bydd gwelliannau arfaethedig yn yr Uned Gwella Ansawdd, yn cynnwys model 'partner busnes', yn ymwreiddio arbenigedd ar lefel yr ysgol, gan alinio prosesau ansawdd â ffactorau llwyddiant allweddol a chyfeiriad y sefydliad cyfan a mynd i'r afael â heriau mewn cynllunio camau dilyniant.

68 Trwy ddatblygu'r Ysgol Ddoethurol, cryfhawyd yr oruchwyliaeth weithredol a strategol ymhellach ar astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. Mae cyflwyno rhaglen ymsefydlu strwythuredig ac adolygiadau cynnydd blynyddol yn sicrhau bod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael profiad cyson ar draws yr ysgolion i gyd. Roedd y myfyrwyr ymchwil yn canmol ansawdd yr oruchwyliaeth, a'r cymorth wedi ei deilwra a ddarperir, yn arbennig i baratoi ar gyfer datblygu traethodau ac asesu.

### Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol

69 Canfu'r tîm adolygu fod fframwaith rheoleiddio a strwythur llywodraethu'r Brifysgol yn parhau'n gadarn, gan sicrhau goruchwyliaeth glir ar safonau academaidd. Mae'r Senedd, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, yn sicrhau bod rheoliadau, codau ymarfer a phrosesau dilysu'r Brifysgol yn cydymffurfio â fframweithiau cenedlaethol, yn cynnwys Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) a'r Cod Ansawdd.

70 Mae’r tîm adolygu’n tynnu sylw at y defnydd trwyadl a wneir yn barhaus gan y Brifysgol o arbenigedd allanol wrth ddilysu, ail-ddilysu, a monitro ac adolygu rhaglenni. Mae arholwyr allanol ac arbenigwyr o fyd diwydiant yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod ei darpariaeth academaidd yn parhau i fod yn drwyadl ac yn berthnasol, ac yn gymaradwy â darparwyr eraill yn y sector. Mae rheoliadau ar gyfer dosbarthu graddau, ochr yn ochr â’r Fframwaith Cywerthedd Asesiadau, yn sicrhau tegwch ac eglurder ymhellach ar draws y meysydd astudio i gyd.

71 Mae’r Fframwaith Cywerthedd Asesiadau wedi’i ddiweddaru, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â chyfarwyddwyr yr ysgolion a’r staff sicrhau ansawdd, yn pwysleisio’r egwyddor o sicrhau llwyth asesu cyson ar draws y modiwlau a’r rhaglenni. Mae’r fframwaith datblygedig yn cynnwys canllawiau clir am y disgwyliadau mewn perthynas â nifer a maint yr asesiadau a’u trefnau pwysoli, ar lefel y modiwlau a’r rhaglenni, gan hwyluso cysondeb ac aliniad â deilliannau dysgu a fwriedir. Mae’r tîm adolygu’n **canmol** gweithrediad y Fframwaith Cywerthedd Asesiadau i sicrhau bod arferion asesu’n deg ac yn gyson, o fewn a rhwng meysydd astudio.

72 I grynhoi, canfu’r tîm adolygu fod prosesau trwyadl y Brifysgol o sicrhau ansawdd, ei hymgysylltiad allanol cryf, a’i fframweithiau cadarn yn parhau i gynnal safonau academaidd yn effeithiol a sicrhau eu bod yn cyfateb â’r disgwyliadau ar gyfer y sector.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol

73 Canfu’r tîm adolygu fod prosesau ansawdd y Brifysgol yn parhau i sicrhau bod y cyrsiau wedi eu llunio’n dda, a’u bod yn darparu profiad academaidd o safon uchel, ac yn asesu cyflawniad y myfyrwyr mewn ffordd ddibynadwy. Mae’r cryfderau nodedig yn cynnwys ymgysylltiad egnïol y myfyrwyr, gan gynnwys cynrychiolaeth y myfyrwyr yn y trefnau llywodraethu, a’r mecanweithiau adborth strwythuredig (gwelwch Adran 4).

74 Gyda chyflwyniad yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol a’r Adroddiad Perfformiad Integredig, mae mecanweithiau gwerthuso wedi aeddfedu ers yr adolygiad diwethaf. Mae’r adroddiadau hyn yn cyfuno metrigau am adborth gan fyfyrwyr, cadwraeth a chanlyniadau graddedigion, gan ddarparu dull sicrhau ansawdd sy’n gynhwysfawr ac yn seiliedig ar ddata. Mae ffactorau llwyddiant allweddol sy’n tanategu Strategaeth 2030 yn cael eu monitro’n systematig, ac mae hyn yn galluogi i’r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a’r Cyngor eu gwerthuso’n effeithiol.

75 Mae’r Cyngor yn adolygu’r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol, ochr yn ochr â’r Adroddiad Gwelliant Blynyddol a’r Adroddiad Safonau Graddau. Mae’r dogfennau hyn yn hwyluso goruchwyliaeth ac yn hysbysu’r broses o gymeradwyo chwe datganiad ansawdd Medr o dan y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

76 Mae’r Brifysgol yn gwneud mwy o ddefnydd erbyn hyn o offer dadansoddi data, er enghraifft y Dangosfwrdd Ymgysylltiad sy’n integreiddio metrigau megis presenoldeb y myfyrwyr, y defnydd a wnânt o’r rhith-amgylchedd dysgu, ac asesiadau a gyflwynir ganddynt. Pwysleisiodd y staff academaidd werth y dangosfwrdd mewn darparu cymorth wedi ei deilwra i fyfyrwyr, hwyluso ymyriadau prydlon a chefnogi blaenoriaeth gwelliant ‘Gwella Cadwraeth’ y Brifysgol. Mae’r tîm adolygu’n **canmol** y ffordd systematig o gyfuno a defnyddio data i hysbysu prosesau sicrhau ansawdd, i hwyluso cymorth wedi ei deilwra i fyfyrwyr ac i danategu gwelliannau penodol.

77 Hefyd, mae’r Brifysgol wedi mynd i’r afael â heriau sy’n codi, megis y defnydd a wneir o ddeallusrwydd artiffisial (DA) cynhyrchiol, drwy ddefnyddio dull rhagweithiol a strwythuredig. Yn ategu dogfen arweiniad i staff a myfyrwyr, datblygwyd cyfleoedd DPP a ddarperir gan CELT. Dangosodd y myfyrwyr israddedig eu bod yn ymwybodol o’r canllaw hwn, gan nodi ei fod ar

gael ar y wefan ‘Fy Mangor’ a’i fod wedi ei gynnwys mewn modiwl gorfodol. Dywedodd y myfyrwyr am y defnydd amrywiol a wneir o dechnolegau DA mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, megis dylunio a rhaglennu, a thrafodaethau ynglŷn â moeseg, rhagfarn, a defnydd priodol. Er enghraifft, tynnodd myfyrwyr ym maes Cyfrifiadureg sylw at y defnydd a wneir o dechnolegau DA wrth asesu eu dealltwriaeth o god rhaglen, tra bo eraill wedi pwysleisio eu gwerth wrth wneud tasgau dylunio creadigol. Mae’r defnyddiau amrywiol hyn yn adlewyrchu ymdrechion y Brifysgol i hyrwyddo defnydd gwybodus a moesegol o dechnolegau DA sy’n cael eu teilwra i gyd-destunau’r disgyblaethau penodol.

78 Mae cynlluniau gweithredu strwythuredig ar gyfer y sefydliad cyfan ac ymyriad ‘archwiliad dwfn’ yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, dan arweiniad aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, wedi mynd i’r afael yn llwyddiannus â’r gostyngiad mewn perfformiad yn ACF 2023. O ganlyniad i’r ymdrechion hyn, cynyddodd y sgôr boddhad cyffredinol a gafwyd yn ACF 2024 o 10%. Clywodd y tîm adolygu fod ffocws allweddol wedi bod ar yr Ysgol Gwyddorau Iechyd mewn gwaith monitro am dair blynedd oherwydd ei heffaith anghyfartal ar ganlyniadau yn yr ACF. Mae gwelliannau y tynnwyd sylw atynt gan arolygon ‘curiad calon’, a wnaed gan Undeb y Myfyrwyr, a dangosyddion sefydliadol ehangach yn awgrymu bod rhagor o newid cadarnhaol ar droed ar gyfer 2025, ac y dysgwyd gwersi ehangach sy’n hysbysu newidiadau ar draws y sefydliad cyfan.

79 I grynhoi, canfu’r tîm adolygu fod y ffordd effeithiol y mae prosesau ansawdd y Brifysgol wedi eu gweithredu ac yn gweithio’n cadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol.

## Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a’i gyfoethogi

80 Mae prosesau ansawdd y Brifysgol wedi eu hintegreiddio’n dda i mewn i’w strwythurau gweithredol. Roedd y cyflwyniad ‘Dulliau strategol o sicrhau gwelliant’ yn pwysleisio’r cylch o ddatblygiad parhaus a wneir ym mhrosesau ansawdd y Brifysgol. Mae’r prosesau ansawdd yn gweithio’n effeithiol i ganfod meysydd sydd angen eu gwella, a chafwyd esiamplau gan y myfyrwyr o gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd yn brydlon mewn ymateb i’r problemau hyn i wella eu profiad dysgu.

81 Mae’r Brifysgol yn rhagweithiol yn y ffordd y mae hi’n ymdrin â meysydd sydd angen eu gwella y tynnwyd sylw atynt mewn data neu adborth gan fyfyrwyr. Canfu’r tîm adolygu fod mentrau gwella ac ymyriadau’n cael eu gweithredu’n gyflym drwy rwydwaith o bwyllgorau a grwpiau cyflawni. Yna gwerthusir y rhain yn effeithiol, gyda chyfranogaeth y myfyrwyr neu mewn partneriaeth â nhw, i’w mabwysiadu ar draws y Brifysgol gyfan, lle bo’n briodol.

82 Mae’r tîm adolygu’n cadarnhau bod dull hyblyg y Brifysgol o ddefnyddio prosesau ansawdd yn ymwreiddio gweithgareddau gwella mewn cylch o welliant parhaus. Daeth y tîm i wybod am Fframwaith Gwella i’r Brifysgol gyfan sydd wrthi’n cael ei ddatblygu ar gyfer 2025-2030, a fydd yn gwreiddio’r egwyddorion hyn yn y gwaith llywio, ac mae hyn yn dangos bod dull y sefydliad o sicrhau gwelliant yn datblygu’n barhaus.

## Crynodeb sy’n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd

83 Ar y cyfan, mae’r tîm adolygu’n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer sicrhau safonau academaidd. Mae fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr y Brifysgol, sydd wedi ei danategu gan strwythurau llywodraethu clir, yn darparu sylfaen gadarn i gynnal a gwella ansawdd a safonau academaidd. Mae aliniad polisïau a gweithdrefnau â

fframweithiau cenedlaethol, yn cynnwys FfCChC a'r FHEQ, yn sicrhau bod safonau trothwy'n cael eu bodloni mewn ffordd gyson ymhob un o'r meysydd astudio a'r dulliau darparu.

84 I gloi, canfu'r tîm adolygu fod trefniadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau safonau academaidd wedi eu sefydlu'n dda a'u bod yn arwydd o sefydliad sy'n edrych tuag at y dyfodol. Mae'r Brifysgol yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau rhagoriaeth, gan fynd i'r afael â heriau sy'n codi a meithrin gwelliant parhaus. Mae'r fframwaith cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd yn sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal, gan ysgogi arloesi a gwella'r ddarpariaeth ar draws y sefydliad cyfan.

# 6. Darpariaeth gydweithredol

## Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid

85 Mae gan y Brifysgol ystod o ddarpariaeth gydweithredol, yn cynnwys partneriaid dilysu ac etholfreinio, dyfarniadau dwbl, cytundebau trosglwyddo, rhaglenni cyfnewid/astudio dramor, lleoliadau gwaith proffesiynol, trefniadau modiwlaidd, canolfannau sy'n darparu hyfforddiant doethurol, a choleg mewnosodedig. Cedwir gwybodaeth am drefniadau partneriaeth y Brifysgol yn y Gofrestr Darpariaeth Gydweithredol.

86 Yn yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2018, cadarnhawyd y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon yn Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr [Management Development Institute of Singapore] (MDIS) yn Tashkent, a chadarnhawyd bod cymorth/trefnau rheoli wedi eu rhoi ar waith. Er gwaethaf hynny, daeth problemau penodol i'r amlwg unwaith eto, a phenderfynodd y Brifysgol ymadael â chydweithrediad MDIS yn 2024, yn dilyn adolygiad. Datblygwyd cynlluniau 'addysgu allan', gydag amserlenni ar gyfer cadarnhau'r camau gweithredu a nifer y myfyrwyr ar bob safle ymhob blwyddyn, ac mae'r Brifysgol yn cynnal goruchwyliaeth ar lefel uwch. Hefyd, cadarnhaodd y Brifysgol fod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r opsiynau i unrhyw fyfyrwyr sy'n methu cwblhau eu cyrsiau dyfarniad cyn diwedd y cyfnod addysgu allan. Gallai'r opsiynau hynny gynnwys derbyn dyfarniad wrth adael cwrs neu drosglwyddo i Brifysgol Bangor neu sefydliad arall, fel y bo'n briodol i'r achos unigol. Cafodd y tîm adolygu gyfle i weld y cyfathrebiadau â'r myfyrwyr ac amserlen y cyfarfodydd arfaethedig gyda'r partneriaid ymhob lleoliad, a daeth i'r casgliad bod y dull a ddefnyddir yn eglur, yn gefnogol ac yn gydweithredol.

87 Yn ei His-strategaeth Ehangu Mynediad, mae'r Brifysgol yn nodi ei hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Grŵp Llandrillo Menai yw partner cydweithredol mwyaf y Brifysgol yn y DU, gydag 828 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar gyrsiau oedd yn arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol yn 2023-24. Mae'r gweithgareddau cydweithredol yng Ngrŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria'n cynnwys Prentisiaethau Gradd a gafodd eu hadolygu yn rhan o adolygiad ar draws y wlad gyfan yn 2021.

## Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau

88 Daeth y tîm adolygu i wybod am ddatblygiadau sydd ar waith yn y dull o reoli partneriaethau cydweithredol, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cyflawni Darpariaeth Gydweithredol newydd (sydd yn ei le erbyn hyn), cyflwyno rôl newydd y Pro Is-Ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) i gymryd lle'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang), datblygu Is-strategaeth Ymgysylltu Byd-eang, adolygu'r disgrifiadau swydd ar gyfer Deoniaid (Ymgysylltu Byd-eang), a datblygu codau ymarfer mewnol ar gyfer darpariaeth gydweithredol a dysgu seiliedig ar waith. Am fod y rhain yn gynnar yn eu datblygiad, ni allai'r tîm asesu eu heffeithiolrwydd. Serch hynny, roeddent yn derbyn y gallai'r dull diwygiedig hwn, o'i weithredu'n effeithiol, wella dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a safonau.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol

89 Defnyddir yr un prosesau ansawdd i gymeradwyo a monitro darpariaeth gydweithredol â'r rheiny a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth ar y campws, gydag addasiadau bychain ynddynt i alinio ag unrhyw reoliadau lleol, lle bo'n ofynnol. Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwywyd

cyflwyno'r Grŵp Cyflawni Darpariaeth Gydweithredol newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25. Mae'r grŵp hwn yn cymeradwyo cynigion am weithgareddau cydweithredol a ystyrir yn rhai risg isel, ac mae'n monitro gweithgareddau sy'n gysylltiedig â risg uwch (a gymeradwyir gynt gan Grŵp Cyflawni Cymeradwyo a Monitro Strategol y Cwricwlwm). Roedd y Brifysgol o'r farn bod hyn wedi cryfhau'r trefniadau blaenorol, a chytunodd y tîm adolygu â'r farn hon.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

90 Canfu'r tîm adolygu fod dulliau'r Brifysgol o reoli darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys ei threfniadau i sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr, yn cyfateb, ar lefel sefydliadol, â'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd y DU (2018).

91 Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu fod y newidiadau staffio sy'n cael eu gwneud wedi gadael bylchau yn rhai o agweddau ymarferol prosesau'r Brifysgol ar gyfer rheoli darpariaeth gydweithredol. Er bod y tîm yn deall y bydd penodiad Pro Is-Ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) newydd yn ddiweddar iawn yn arwain at adolygu polisïau a rolau, dim ond yn 2023-24 yr oedd y broses o ailddatblygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol wedi cychwyn ac nid oedd hon wedi ei chwblhau eto. Cafwyd oedi yn y broses o gymeradwyo a chyflwyno'r cod ymarfer hwn, y disgwyliwyd iddo fod wedi ei gwblhau ac ar gael ar gyfer ymgynghoriad pellach ar adeg yr ymweliad gan y tîm adolygu. Mae'r oedi hwn wedi arwain at ychydig o gamgyfatebiaeth rhwng y cod ymarfer cyhoeddedig presennol a'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd, er enghraifft, yn strwythurau'r pwyllgorau sy'n ystyried materion yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol. Canfu'r tîm hefyd bod diffyg eglurder ynglŷn â sut y mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn gweithio mewn sefydliadau partner, pa hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i aelodau o'r staff sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol, a'r disgwyliadau yn ymwneud ag ymgysylltu.

92 Nododd y tîm adolygu fod y camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau dull y Brifysgol o reoli darpariaeth gydweithredol yn **faes sydd o dan ddatblygiad parhaus**. Byddai'r tîm yn annog y Brifysgol i fynd ati'n fuan i gwblhau ei gwaith o adolygu'r polisïau, y rolau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol.

**QAA2883 - R14667 - Chwefror 2025**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk/cy](http://www.qaa.ac.uk/cy)